**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At: Cyng Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Sean Bibby, Geoff Collett, Mared Eastwood, Patrick Heesom, Richard Jones, Richard Lloyd, Kevin Rush, Paul Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

Dydd Gwener, 4 Mawrth 2022

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**DYDD IAU, 10FED MAWRTH, 2022 10.00 AM**

Yn gywir



Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we a bydd 'presenoldeb' wedi'i gyfyngu i Aelodau'r Pwyllgor a'r Aelodau hynny o'r Cyngor sydd wedi gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am wahoddiad. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a yw'r rhain yn cael siarad ai peidio.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori’r Aelodau yn unol a hynny.

3 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 10 Chwefror 2022.

4 **YMGYNGHORIAD YNGHYLCH ASESIAD LLES 2022 DRAFFT SIR Y FFLINT** (Tudalennau 13 - 66)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Weithredwr - Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol

**Pwrpas:** Ymgynghori â Phwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol, fel ymgynghorai statudol, ynghylch Asesiad Lles 2022 drafft Sir y Fflint.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw’r cyfarfod yn para’n hirach na dwy awr.***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home